# CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Zoom, Nos Lun, 26ain Hydref 2020, am 7 o'r gloch.

PRESENNOL Mr D Humphreys (Benllech B), (Cadeirydd), Mr G Owen, (Llanbedrgoch), Ms G M Davies, (Benllech A), Mrs S Edwards, (Benllech B), Mrs C Hulme, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mr P Day, (Benllech B), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mr K F Griffiths, (Benllech A).

122 **Ymddiheuriadau** – Mr R O Jones, (Benllech A), Mr D W Roberts, (Brynteg).

123 **Datganiadau o Ddiddordeb** – cafwyd un datganiad o ddiddordeb gan Mr G Harker-Roberts, (Brynteg).

124 **Ymweliad Mr Huw Percy (Adran Briffyrdd, y Cyngor Sir) –** Diben yr ymweiad oedd i drafod nifer o gwestiynau gan yr Aelodau, yn cynnwys materion yn ymwneud â Meysydd Parcio ym Menllech – y les a thâl am barcio; diffyg ffordd ddiogel i gerdded o Llanbedrgoch i gyferiad Benllech; trafod y posibilrwydd o sefydlu system Unffordd tuag at y traeth ym Menllech; Cynllun Datblygu Cynaliadwy Traeth Benllech (yn dilyn ymweliad Ms Lizzie Wynne). (Gweler y sylwadau isod).

**Materion parthed Meysydd Parcio ym Menllech –** rhoddodd Mr Percy opsiynau gwahanol i'r Aelodau parthed adnewyddu'r les a system godi tâl am barcio (i'w drafod ymhellach gan yr Aelodau).

**Ffordd y B5108 o'r Sgwâr tuag at Brynteg** - Byddai modd treilau system un-ffordd trwy Orchymyn Traffic Arbrofol fyddai yn ddilys am hyd at uchafswm o 18 mis. Gellid gwneud y ffordd yn un-ffordd o'r Sgwâr at gyffordd Lôn Pant y Cudyn (neu unrhyw leoliadau eraill yr argymhellir) gyda thraffig yn llifo lawr/fyny o'r Sgwâr er mwyn lleihau symudiadau yno. Gellid ymestyn y drefn un cyfeiriad at gyffordd Lôn Pant y Cudyn, ond gall hynny gael ei adolygu, yn dibynnu ar y farn leol, a sylwadau y Gwasanaeth Tân. Petai cefnogaeth gan y Cyngor Cymuned, hoffai fwrw ymlaen gyda threialu Gorchymyn Traffic Arbrofol 18 mis ac ei gael mewn lle cyn Pasg 2021. O fewn y 18 mis byddai unai rhaid bwrw ymlaen gyda Gorchymyn parhaol a dilyn y broses arferol ar gyfer hynny, neu gytuno nad oes budd yn yn system un-ffordd a dychwelyd at system traffic dwy ffordd. Nid oedd yn argymell cael trefniant gwahanol yn ystod misoedd yr haf yn unig ar sail parhaol. Byddai opsiynnau cadw neu gynyddu y nifer o lefydd parcio ar y stryd petai traffic yn cael llifo mewn un cyfeiriad yn unig yn barhaol. Os nad oes cefnogaeth am dreilalu system un-ffordd, yna byddwn yna rgymell bwrw ymlaen gyda Gochymyn Traffic parhaol er mwyn atal parcio o'r Sgwâr i fyny er mwyn gwella llif traffig. Gallai'r Gorchymyn yma gynnwys addasu cyfyngiadau parcio tu allan i siop y cigydd er mwyn cael mwy o drosiant.

**Ffordd y Traeth** - Byddai modd treilau system un-ffordd trwy Orchymyn Traffic Arbrofol fyddai yn ddilys am hyd at uchafswm o 18 mis. Gellid gwneud y ffordd yn un-ffordd o islaw mynedfa maes parcio'r Sgwâr at fynedfa maes parcio Wendon Uchaf (neu unrhyw leoliadau eraill yr argymhellir) gyda thraffig yn llifo lawr at y prom, gan gadw y ffordd o fynedfa Wendon Uchaf at yr A5025 trwy Stâd Breeze Hill yn draffig dwy ffordd.
Petai cefnogaeth gan y Cyngor Cymuned hoffai fwrw ymlaen gyda threialu Gorchymyn Traffic Arbrofol 18 mis ac ei gael mewn lle cyn Pasg 2021. O fewn y 18 mis byddai unai rhaid bwrw ymlaen gyda Gorchymyn parhaol a dilyn y broses arferol ar gyfer hynny neu gytuno nad oes budd yn yn system un-ffordd a dychwelyd at system traffic dwy ffordd. Ni fyddwn yn argymell cael trefniant gwahanol yn ystod misoedd yr haf yn unig ar sail parhaol. Byddai opsiynnau ceisio am grantiau er mwyn lledu y yn y dyfodol petai y ffordd yn un cyfeiriad yn barhaol.

Diolchwyd i Mr Percy am ei sylwadau gwerthfawr gan y Cynghorydd Sirol -
Y Cyng Ieuan Williams.

Bydd y materion uchod yn cael eu trafod ymhellach gan yr Aelodau.

**125 Cofnodion** - Cymerdawyo cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Zoom 28ain Medi, 2020, am 7.00 o'r gloch. Derbyniwyd y Cofnodion gan yr Aelodau, ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

**126 Llwybrau, Ffyrdd a Phalmentydd** – i dderbyn manylion gan yr Aelodau am faterion yn codi.

(a) *Gor-dyfiant ar 'Lôn Fain' Brynteg i gyfeiriad Llanfair Mathafarn Eithaf;
(b) Gor-dyfiant ar 'Lôn Bwlch' – yn dal heb gael ei dorri.

*Bydd y materion uchod yn cael eu pasio ymlaen i sylw Mr Richard Edwards ac *Adran Briffyrdd y Cyngor Sir.*

**127 Adroddiad misol y Cynghorydd Sirol –** Cafwyd adroddiad amserol gan y Cyng. Ieuan Williams am faterion amrywiol o'r Cyngor Sir, gan gynnwys sylwadau ar Gyfarfod Gweithredol y Cyngor – Adroddiad Gwelliannau Blynyddol, sy'n edrych ar pa welliannau a wnaethbwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn; Rhaglen Ataliol y Cyngor – sy'n ymwneud â gwaith y Gwasanaethau Cymdeithasol; Contract Gwastraff y Cyngor - ail dendr yn cael ei osod, a bydd taliad blynyddol o £35 am wagio'r bin gwyrdd; Cyfeiriodd hefyd at y ffaith bod y Cyngor yn dechrau paratoi ar gyfer Cyllideb 2021. DIolchwyd i'r Cynghorydd Ieuan Williams am ei sylwadau gwerthfawr gan y Cadeirydd.

**128 Gohebiaeth**

(a) Ffurflen gais Cymorthdal TCC gan Heddlu Gogledd Cymru.
(b) Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.
(c) Fforwm Clercod Cyngohrau Cymuned Môn – Cofnodion 23 Medi 2020.

(d) E bost gan Mr Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd parthed cynnal cyfarfodydd Misol y Cynghorau Cymuned/Tref.
(e) Ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol – Cyngor Sir.

## 129 Biliau a Thaliadau mis HYDREF 2020 – rhoddwyd caniatád i'r Clerc weinyddu'r taliadau yma.

**DOGFEN GADARNHAU TALIADAU TRWY BACS – HYDREF 2020**

| DYDDIAD / DATE | CÔD/ SCRIBE SCRIBE | TALWYD I / PAYEE:- | SWM / SUM (£) |
|---|---|---|---|
| 30 Hydref / October | Cyflog y Clerc (Medi) / Clerk Wages | Arwel Jones | 1423.07 |
| " " " | HMRC AJ (Clerc / Clerk) | HMRC | 349.52 |
| " " " | Ffôn y Cyngor Cymuned / Community Council Telephone | Arwel Jones | 15.00 |
| 22 Hydref / October | ASL – Copiau Ywchwanegol / Extra Photocopies | ASL | 12.96 |
| 30 Hydref / October | Torchen Sul y Cofio / Remembrance Sunday Wreath | The Poppy Appeal | 40.00 |
| 30 Hydref / October | Rhodd ar gyfer Cylch Chwarae, Benllech / Benllech Playgroup Donation | Cylch Chwarae Benllech Playgroup | 100.00 |

## 130 Materion Cyffredinol

(a) Cadarnhau Ffurflen Taliadau Lwfansau Aelodau (£150.00) am 2020/21 (Mr Leighton Jones, Un Llais Cymru) – Cytunodd yr Aelodau yn unfrydol i beidio a derbyn y taliad.
(b) Trafodwyd materion ynglŷn â Chae'r Berllan – cyflwynodd y Clerc gopi amcangyfrif o'r gost am y gwaith gan gwmni HAGS (yn dilyn y difrod a wnaethbwyd). Penderfynwyd disgwyl clywed gan y cwmni yswiriant cyn symud ymlaen ymhellach.
(c) Cadarnhau Ffi Aelodaeth SLCC y Clerc am 2020/21 - £227.00. CANIATAWYD.
(d) Dathliadau coffau'r 'Thetis' – ymholiad gan Mrs Gwenda Parry (Clerc Cyngor Cymuned Moelfre). Roedd yr Aeoldau'n fodlon bod yn rhan o'r dathliadau, ond angen derbyn gwybodaeth bellach.
(e) Ymholiad gan Ms Liz Foley parthed Cae'r Berllan. Y Clerc i gysylltu.
(f) Cais am RODD blynyddol tuag at Cylch Chwarae Benllech gan Ms Liz Foley (CANIATAWYD Y TALIAD o £100.00).
(g) Ymholiad parthed Blwch Ffonio, Ty'n-y-gongl, gan Mr Declan Pritchard. Y Clerc i wneud ymholiadau parthed y mater gyda'r Cyngor Sir a British Telecom.
(h) E bost gan Mr Mel ab Owain (Un Llais Cymru) parthed mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn rheolaidd. Trafodwyd y mater gan yr Aelodau, a chytunodd pawb ei fod yn holl bwysig i BOB Aelod fynychu cyfarfodydd y Cyngor yn rheolaidd, a dylid hysbysu'r Clerc yn syth os na allent fod yn bresennol oherwydd amgylchiadau anorfod. Yn dilyn eglurhád gan y Cadeiriydd ei fod wedi ymweld â'r Aelodau perthnasol (ar gais gweddill yr Aelodau), cafwyd pleidlais ddemocraitaidd (gyda'r mwyafrif o blaid) i symud ymlaen a chydymffurfio â'r rheolau a osodwyd gan Un Llais Cymru yn y dyfodol.

(i) Ymateb y Cadeirydd i E bost Mr Euryn Morris – Cyflwynwyd y wybodaeth i'r Aelodau gan y Cadeirydd, a chafwyd ymateb cadarnhaol a sicr bod y Cyngor wedi gweithredu yn y ffordd gywir a phriodol parthed gosod y sedd wag ar y Cyngor Cymuned.
(j) Sul y Cofio 2020 – yn dilyn argymhellion a chanllawiau gan y Cyngor Sir, penderfynnwyd peidio a chynnal Gwasanaeth Sul y Cofio, wrth y Gofeb ym Menllech, eleni, oherwydd cygyngiadau Covid-19. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Parch Griff Jones ac eraill oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad.
(k) Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft Pannel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau – unrhyw sylwadau erbyn 23 Tachwedd 2020. Ni chafwyd sylwadau arbennig ar y mater yma.
(l) Trefnu dyddiad i osod y bocsys plannu – gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau parthed archebu pridd a phlanhigion addas, a bydd nifer o'r Aelodau yn dod at eu gilydd yn fuan i wneud y gwaith.
(m) Yn dilyn cau Swyddfa'r Heddlu ym Menllech, nododd y Clerc bod y System TCC (CCTV) yn cael ei weinyddu dan ofal Cwmi CCTV Systems, Llandudno erbyn hyn, hyd y bydd yn cael ei adleoli ym Menllech.

## 131 Cynllunio

(a) Oherwydd cyfyngiad amser, gyrrwyd y manylion isod i'r Aelodau, a chafwyd sylwadau ganddynt. Gyrrwyd y sylwadau i Adran Gynllunio'r Cyngor Sir.

1.Ymgynghoriad Cynllunio SCR/2020/56 – Parc Gwyliau Dewi Sant, Traeth Coch.
Cafwyd sylwadau ar ystyried gwneud gwaith trylwyr ar yr effaith amgylcheddol.

2.Ymgynghoriad Cynllunio VAR/2020/58 – 70 Bay View Road, Benllech.
Cafwyd sylwadau am godi uchder y to – efallai y bydd yn gwyro i weddill y stâd.

3.Ymgynghoriad Cynllunio FPL/2020/186 – Estyniad i Sied Amaethyddol ym Mhlas Bach, Llanbedrgoch. Dim gwrthwynebiad.

4.Ymgynghoriad Cynllunio FPL/2020/107 – Fairacre, Ty'n-y-gongl.
Cafwyd sylwadau ynglŷn â'r defnydd o'r lliw glas.

5.Ymgynghoriad Cynllunio HHP/2020/171 – 12 Bryn Goleu, Ty'n-y-gongl. Dim gwrthwynebiad.

(b) Penderfyniad Cynllunio RM/2020/6 – Cae Ysgawen, Brynteg (CANIATAWYD).

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.30 o'r gloch.

LLANFAIR MATHAFARN COMMUNITY COUNCIL

MINUTES of the Council Meeting held on Zoom, Monday, 26th October 2020, at
7 o'clock.

PRESENT Mr D Humphreys (Benllech B), (Chairman), Mr G Owen, (Llanbedrgoch),
Ms G M Davies, (Benllech A), Mrs S Edwards, (Benllech B), Mrs C Hulme, (Benllech B),
Mr I Williams, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch),
Mr P Day, (Benllech B), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mr K F Griffiths, ( Benllech A).

122 Apologies - Mr R O Jones, (Benllech A), Mr D W Roberts, (Brynteg).

123 Declarations of Interest - one declaration of interest was received from Mr G Harker-Roberts, (Brynteg).

124 Visit by Mr Huw Percy (Highways Department, County Council) - The purpose of the visit was to discuss a number of questions from Members, including issues relating to Car Parks in Benllech - lease and parking charge; the lack of a safe way to walk from Llanbedrgoch to Benllech; discuss the possibility of establishing a One-way system towards the beach at Benllech; Benllech Beach Sustainable Development Scheme (following Ms Lizzie Wynne's visit). (See comments below).

*Car Parking Issues in Benllech* - Mr Percy provided Members with alternative options regarding lease renewal and a parking charging system (for further discussion by Members).

*B5108 Square Road towards Brynteg* - One-way system could be piloted by Experimental Traffic Order valid for up to a maximum of 18 months. The road could be made one-way

from the Square to the Pant y Cudyn junction (or any other recommended locations) with traffic flowing down / up from the Square to reduce movement there. The one-way system could be extended to the Pant y Cudyn junction, but this can be reviewed, depending on local opinion, and Fire Service comments. If supported by the Community Council, it would like to proceed with piloting an 18 month Trial Traffic Order and have it in place before Easter 2021. Within the 18 months a permanent Order would either have to go ahead and follow the usual process, or agree that there is no benefit in a one-way system and return to a two-way traffic system. He did not recommend having a different arrangement during the summer months only on a permanent basis. There would be options to retain or increase the number of on-street parking spaces if traffic could only flow in one direction permanently. If there is no support for trialing a one-way system, then we would recommend proceeding with a permanent Traffic Calm to prevent parking from the Square upwards to improve traffic flow. This Order could include modifying parking restrictions outside the butcher's shop to increase turnover.

*Beach Road* - A one-way system could be piloted by an Experimental Traffic Order valid for up to a maximum of 18 months. The road could be made one-way from below the Square car park entrance to the Upper Wendon car park entrance (or any other recommended locations) with traffic flowing down to the prom, keeping the road from the Upper Wendon entrance to the A5025 through Breeze Hill Estate is two-way traffic. If there was support from the Community Council, he would like to proceed with the trial of an 18 month Trial Traffic Order, and have it in place before Easter 2021. Within the 18 months either a permanent Order would have to go ahead and follow the normal process for that or agree that there is no benefit is a one-way system and return to a two-way traffic system. I would not recommend having a different arrangement during the summer months only on a permanent basis. There would be options to apply for grants to widen the future if the road were permanently one way.

Cllr Ieuan Williams (County Councilor) thanked Mr Percy for his valuable comments.

The above issues will be discussed further by Members.

**125 Minutes** - Approve the minutes of the Council Meeting held on Zoom September 28, 2020, at 7.00 o'clock. The Minutes were accepted by the Members, and signed by the Chairman.

**126 Footpaths, Roads and Pavements** - to receive details from Members on matters arising.

(a) * Overgrowth on ‘Lôn Fain’ Brynteg towards Llanfair Mathafarn Eithaf;
(b) 'Lôn Bwlch' overgrowth - still in need of attention.

*The above matters will be passed to the attention of Mr Richard Edwards and * Highways Department of the County Council.*

**127 The County Councilor Monthly Report** - A timely report was received from Cllr. Ieuan Williams on various County Council issues, including comments on the Council's Executive Meeting - Annual Improvement Report, which looks at what improvements the Council has made during the year; The Council's Preventative Program - which relates to the work of Social Services; Council Waste Contract - second tender being let, and there will be an annual payment of £ 35 for emptying the green bin; He also referred to the fact that the Council was beginning to prepare for the 2021. Budget. Councilor Ieuan Williams was thanked for his valuable comments by the Chairman.

**128 Correspondence**
(a) CCTV Subsidy application form from North Wales Police.
(b) The Executive's forward work program.
(c) Anglesey Community Council Clerks Forum - Minutes 23 September 2020.

(d) E-mail from Mr Huw Jones, Head of Democratic Services regarding the holding of Monthly Community / Town Council meetings.
(e) Public Consultation Supplementary Planning Guidance - County Council.

129 Bills and Payments for OCTOBER 2020 - the Clerk has been given permission to administer the bill payments.

PAYMENT BY BACS CONFIRMATION DOCUMENT - OCTOBER 2020

| DYDDIAD / DATE | CÔD/ SCRIBE SCRIBE | TALWYD I / PAYEE:- | SWM / SUM (£) |
|---|---|---|---|
| 30 Hydref / October | Cyflog y Clerc (Medi) / Clerk Wages | Arwel Jones | 1423.07 |
| " " " | HMRC AJ (Clerc / Clerk) | HMRC | 349.52 |
| " " " | Ffôn y Cyngor Cymuned / Community Council Telephone | Arwel Jones | 15.00 |
| 22 Hydref / October | ASL – Copiau Ywchwanegol / Extra Photocopies | ASL | 12.96 |
| 30 Hydref / October | Torchen Sul y Cofio / Remembrance Sunday Wreath | The Poppy Appeal | 40.00 |
| 30 Hydref / October | Rhodd ar gyfer Cylch Chwarae, Benllech / Benllech Playgroup Donation | Cylch Chwarae Benllech Playgroup | 100.00 |

130 General Issues

(a) Confirmation of Members' Allowances Payment Form (£ 150.00) for 2020/21 (Mr Leighton Jones, One Voice Wales) - Members unanimously agreed not to accept the payment.
(b) Issues regarding Cae'r Berllan were discussed - the Clerk submitted a copy of the estimated cost of the works from the HAGS company (following the damage to the flooring). It was decided to expect to hear from the insurance company before proceeding further.
(c) That the Clerk's SLCC Membership Fee for 2020/21 to be confirmed - £ 227.00. GRANTED.
(d) 'Thetis' commemorations - inquiry by Mrs Gwenda Parry (Clerk to Moelfre Community Council). The Members were happy to be part of the celebrations, but need to receive further information.

(e) An inquiry by Ms Liz Foley regarding Cae'r Berllan. The Clerk to contact Ms Foley.

(f) Request for annual DONATION towards Benllech Playgroup by Ms Liz Foley (PAYMENT OF £ 100.00 GRANTED).

(g) Inquiry regarding Phone Box, Ty'n-y-gongl, by Mr Declan Pritchard. The Clerk to make inquiries regarding the matter with the County Council and British Telecom.

(h) E-mail from Mr Mel ab Owain (One Voice Wales) regarding regular attendance at Council meetings. Members discussed the issue, and all agreed that it was important for ALL Members to attend regular Council meetings, and the Clerk should be informed immediately if they were unable to attend due to unavoidable circumstances. Following clarification from the Chair that he had visited the relevant Members (at the request of the remaining Members), a democratical vote was taken (with the majority in favor) to proceed and comply with the rules set out by One Voice Wales in the future.

(i) Chairman's Response to Mr Euryn Morris' E-mail - The Chair presented the information to Members, and received a positive response, that the Council had acted in the correct and appropriate manner in relation to the vacancy of the Community Council.

(j) Remembrance Day 2020 - following recommendations and guidelines from the County Council, it was decided not to hold the Remembrance Service, at the Cenotaph in Benllech, this year, due to the restrictions of Covid-19. The Clerk will contact Rev. Griff Jones and others involved in the event.

(k) Consultation of the Independent Remuneration Panel for Wales Draft Annual Report for Members - any comments by 23 November 2020. There were no specific comments on this issue.

(l) Date to set up to install the planters - the Clerk has been asked to make inquiries regarding the ordering of suitable compost and plants, and a number of Members will be meeting soon to do the work.

(m) Following the closure of the Police Office in Benllech, the Clerk noted that the CCTV System was now being administered under the care of CCTV Systems, Llandudno, pending its relocation in Benllech.

131 Planning

(a) Due to time constraints, the following details were forwarded to Members for their observations. Comments have been sent to the Planning Department of the County Council.

1. Planning Consultation SCR / 2020/56 - St David's Holiday Park, Red Wharf Bay. There were comments on considering doing a thorough environmental impact work.

2. Planning Consultation VAR / 2020/58 - 70 Bay View Road, Benllech. There were comments about raising the roof height - it may deviate to the rest of the estate.

3. Planning Consultation FPL / 2020/186 - Agricultural shed extension at Plas Bach, Llanbedrgoch. No objections.

4.Planning Consultation FPL / 2020/107 - Fairacre, Tyn-y-Gongl. Comments were made about the use of the color blue.

5. Planning Consultation HHP / 2020/171 - 12 Bryn Goleu, Ty'n-y-gongl. No objections.

(b) Planning Decision RM / 2020/6 - Cae Ysgawen, Brynteg (GRANTED).

The Meeting closed at 9.30 pm